Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend
Public Services Board

# adroddiad blynyddol



bridgend county
sir pen-y-bont

## 2019|20

Tîm Cymorth BGC, d/o
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr,
Y Ganolfan Ddinesig, Stryd yr Angel,
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB

This document is also available in English

# Cynnwys

## Croeso i'r adroddiad blynyddol


Cyflwyniad gan y Cadeirydd 2

Trawsnewid 4

Gweithio'n Rhanbarthol 5

**Pum Ffordd o Weithio**

**Cydweithredu 8 - 10**

**Integreiddio 12 - 13**

**Ymgysylltu 14 - 16**

**Tymor Hir 17 - 19**

**Atal 20 - 22**

Sut rydym ni'n Cyflawni'r Cynllun 23

Mesur Llesiant 24

# Cyflwyniad

## Datganiad gan ein Cadeirydd

**Croeso i Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2019/20 wrth i ni barhau i ganolbwyntio ar gyflawni ein hamcanion fel y nodir yn ein Cynllun Llesiant.**

O'r cychwyn cyntaf, rydym wedi cymryd yr agwedd bod angen i'r BGC ymwneud â gweithio'n wahanol a defnyddio'n harbenigedd ar y cyd i wneud newidiadau go iawn, a hyrwyddo dull gwirioneddol integredig o weithio mewn partneriaeth, er mwyn gwella llesiant pobl a lleoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae ein cynllun llesiant yn gosod cyfeiriad y BGC a thrwy'r holl adroddiad fe welwch sut mae'r BGC wedi parhau i wneud cyfraniad cadarnhaol i weithio mewn partneriaeth a fydd yn ein galluogi i fynd â'r maen i'r wal ar draws ein pedwar amcan llesiant.

Yn ogystal, rydym wedi ceisio datblygu ein perthynas â phartneriaid ar sail ranbarthol, gan gydnabod y newidiadau i ffiniau byrddau iechyd a'r cyfleoedd y mae hyn yn eu dwyn i weithio ar ddull mwy cyson o ddarparu gwasanaethau. Er bod hwn yn ddatblygiad cyffrous i'r BGC, mae ein cyfrifoldeb cyntaf yn ymwneud â'r cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac ni fyddwn yn colli'r ffocws hwnnw.

Er mwyn sicrhau ein bod yn parhau ar y trywydd iawn, mae gwaith y BGC wedi bod yn destun nifer o gyfarfodydd craffu drwy gydol y flwyddyn ac, er mwyn gwella ein hatebolrwydd ymhellach, rydym wedi gwahodd aelodau etholedig o bwyllgor craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fod yn rhan o'r is-grwpiau.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r holl asiantaethau sy'n bartneriaid am eu cyfraniad i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eleni ac rwy'n edrych ymlaen at gydweithio dros y flwyddyn nesaf.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen drwy'r adroddiad.

# Ein Hadroddiad Blynyddol

Mae'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn i ni weithio tuag at y saith nod llesiant i Gymru mewn ffordd sy'n diwallu anghenion cyfredol heb atal cenedlaethau'r dyfodol rhag diwallu eu hanghenion eu hunain. Mae gweithio fel hyn yn cael ei ddangos yn y pum ffordd o weithio: Cydweithredu, Integreiddio, Ymgysylltu, Tymor Hir ac Atal. Eleni, yn ein hadroddiad blynyddol roeddem am ddangos sut mae'r ffordd rydym yn gweithio yn adlewyrchu pob un o'r rhain yn ogystal â chyflawni ein hamcanion llesiant.

Er bod ein his-fyrddau wedi parhau drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf i ganolbwyntio ar gyflawni'r camau yn y cynllun llesiant, mae'r BGC wedi canolbwyntio'n helaeth iawn ar ddatblygu ein gwaith rhanbarthol gydag ardal Cwm Taf Morgannwg. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar hyn yn y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'r adroddiad hwn y gellir ei lawrlwytho a'i argraffu ar gael ar wefan y BGC lle gallwch gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr, ei aelod-sefydliadau a chofnodion cyfarfodydd y BGC a lawrlwytho copïau o

- **Asesiad Llesiant Pen-y-bont ar Ogwr**
- **Cynllun Llesiant Pen-y-bont ar Ogwr**

# Ein Cynllun Llesiant

## Adroddiad blynyddol BGC Pen-y-bont ar Ogwr

Mae ein cynllun llesiant yn amlinellu'r pethau y bydd BGC Pen-y-bont ar Ogwr yn cydweithio arnynt; ein hamcanion a'n camau llesiant, a sut y carem i Ben-y-bont ar Ogwr edrych yn y dyfodol. Dyma'r amcanion a ddewiswyd gennym:

**Y dechrau gorau mewn bywyd**

**Cefnogi cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynus**

**Lleihau cydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd**

**Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach**

Bwriedir i'r rhain weithio gyda'i gilydd mewn ffordd integredig er mwyn cyfrannu at gyflawni'r saith nod llesiant i Gymru




**Cymru Lewyrchus**

**Cymru Gydnerth**

**Cymru Iachach**

**Cymru sy'n fwy Cyfartal**

**Cymru o Gymunedau cydlynus**

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

**Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-eang**


# Trawsnewid

## Adroddiad blynyddol BGC Pen-y-bont ar Ogwr

**Mae ein cynllun llesiant yn canolbwyntio ar y camau gweithredu hynny sy'n gofyn am ddull partneriaeth i sicrhau newid go iawn i bobl sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ers ei sefydlu, rydym wedi bod yn glir bod BGC Pen-y-bont ar Ogwr yn ymwneud â gweithio'n wahanol, a gwell, gyda'n gilydd; gan wneud newidiadau go iawn i wasanaethau. Rydym am symud oddi wrth seilos sefydliadol a sicrhau dyfodol mwy integredig.**

**Er y gall y trawsnewid hwn fod yn broses hirfaith, mae'r rhain yn enghreifftiau o'r ffordd rydym yn symud o'n hen ddull o wneud pethau i ddull mwy integredig o wella llesiant sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Gall hyn gynnwys gweithio gyda phartneriaid newydd, cymryd golwg fanwl ar sut rydym yn gweithio ar hyn o bryd ac ailfodelu gwasanaethau drwy weithio ar draws partneriaid.**

- Gwyddom fod partneriaid newydd yn cynnig gwahanol safbwyntiau ac yn ychwanegu at ddyfnder a chyfoeth ein dealltwriaeth o faterion sy'n effeithio ar lesiant yn ein hardaloedd. Ym mis Ebrill 2019 symudodd gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd i fod yn rhan o Gwm Taf Morgannwg gan ymuno ag ardaloedd Rhondda Cynon Taf a Merthyr. Mae aelodau newydd ar ein BGC a'n his-fyrddau wedi ein cyflwyno i rwydweithiau rhanbarthol newydd a dulliau newydd fel gwaith ar iechyd rhywiol a llesiant y gweithlu lle gallwn rannu arferion da a dwyn ein dulliau ynghyd ar sail ranbarthol.
- Mae gwaith cynnar gan yr Is-fwrdd Plant a Phobl Ifanc wedi gwerthuso profiadau o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau drwy siarad â rhieni â phlant ifanc. Ar y cyfan, mae eu profiad o wasanaethau'n dda ond mae potensial i wasanaethau weithio'n well gyda'i gilydd ar gyfer teuluoedd ifanc sy'n wynebu amrywiaeth o heriau. Rydym wedi ymuno â phrosiect cyd-adeiladu Cwm Taf i ail-ddychmygu system blynyddoedd cynnar integredig i blant am eu 1000 diwrnod cyntaf h.y. o'u cenhedlu i 2 flwydd oed ac yna hyd at 7 oed. Mae ein hymchwil yn ychwanegu at y dadansoddiad 'lab byw' o wasanaethau cyfredol a gynhaliwyd gyda BGC Cwm Taf.
- Yn aml, mae gan blant yn y system gyfiawnder anghenion lluosog a chymhleth. Mae ein gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn ceisio dargyfeirio plant o ymddygiad peryglus, mynd i'r afael â'r anghenion hyn a'u helpu i dorri'r cylch troseddu. Yn arolygiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid o'n gwasanaethau troseddau ieuenctid, tynnwyd sylw at yr angen i ailfodelu'r gwasanaeth yn sylfaenol. Cafodd Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr ei ddiwygio eleni. Mae'r Bwrdd bellach yn adrodd yn uniongyrchol i'r BGC i ddarparu cymorth strategol lefel uchel. Drwy weithio'n agos ar draws pob partner, rydym wedi gwella'r rhyngwyneb â gwasanaethau diogelu, iechyd a'r ddarpariaeth amlasiantaeth ehangach ar gyfer plant a phobl ifanc.




# Trawsnewid

## Adroddiad blynyddol BGC Pen-y-bont ar Ogwr

- Rydym wedi neilltuo amser eleni i ystyried ein gweithgarwch a nodi gwersi ar gyfer y dyfodol. Mae hon yn elfen o'n fframwaith rheoli perfformiad sy'n ein helpu i sicrhau bod blaenoriaethau'n parhau'n berthnasol ac ar y trywydd cywir. Roedd y gweithdy datblygu gwasanaethau cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2019 yn ystyried sut roedd y strwythur presennol yn gweithio ac yn ystyried a oedd angen ymateb i faterion ehangach a thymor hwy megis bregusrwydd, yr economi sylfaenol, Brexit a newid yn yr hinsawdd. Yn gyffredinol, teimlwyd bod ein strwythur a'n trefniadau llywodraethu'n iawn, ond mae angen rhoi mwy o bwyslais ar draws ffrydiau gwaith ar newid yn yr hinsawdd a bregusrwydd/troseddu cyfundrefnol difrifol yn ogystal â gwella'r ffordd mae'r is-fyrddau'n cydweithio, mesur canlyniadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

- Mae BGCau wedi bod ar waith ledled Cymru ers 2016. Yn 2019, gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac rydym wedi ystyried eu hargymhellion yn fanwl. Mae ein ffordd bresennol o weithio eisoes yn adlewyrchu nifer o elfennau o'r argymhellion ac rydym wedi gweithio i gadw aelodaeth fechan o benaethiaid sefydliadau gan roi statws cyfartal i bob aelod. Er mwyn gwella atebolrwydd eleni, mae aelodau etholedig ar Bwyllgor Craffu'r BGC wedi ymuno â'r is-fyrddau i chwarae rhan fwy gweithredol wrth sicrhau ffocws cymunedol.

- Roedd yr astudiaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru ac un gan Lywodraeth Cymru yn cydnabod bod sefydliadau'n cwrdd mewn ystod eang o bartneriaethau a bod manteision i'w cael drwy resymoli'r rhain. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a sefydlwyd gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn rhannu ffocws gyda BGCau ar wella llesiant, yn arbennig atal iechyd gwael. Yn dilyn y seminar cenedlaethol i archwilio'r posibilrwydd o waith ar y cyd rhwng BGCau a'r Byrddau Cynllunio Rhanbarthol, daethom ynghyd â BGC Cwm Taf a Bwrdd Cynllunio Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg i gynnal cynhadledd i ystyried sut y gallwn weithio mewn ffordd fwy integredig yn ein rhanbarth. Byddwn yn gweithio tuag at asesiad ar y cyd, rhannu blaenoriaethau cyffredinol a sefydlu corff rhanbarthol newydd, gan gynnwys BGC Cwm Taf Morgannwg cyfun. Yn y tymor byrrach bydd y tri Bwrdd yn nodi rhai blaenoriaethau cyffredin i weithio gyda'i gilydd arnynt. Roedd y pynciau a drafodwyd yn y gweithdy yn cynnwys bregusrwydd, digartrefedd a newid hinsawdd.



# Gweithio'n Rhanbarthol

## Adroddiad Blynyddol BGC Pen-y-bont ar Ogwr

**Tra bod gwahanol sefydliadau a byrddau'n ymdrin ag olion traed gwahanol neu olion traed sy'n gorgyffwrdd, maent yn aml yn rhannu'r un problemau e.e. iechyd gwael, sgiliau isel a bregusrwydd. Mae llawer o'n partneriaid ar BGC Pen-y-bont ar Ogwr yn gwasanaethu ardal ranbarthol Cwm Taf Morgannwg gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Heddlu De Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru, HMPPS, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi edrych am gyfleoedd i wneud mwy yn rhanbarthol ac adeiladu perthynas â phartneriaid newydd ar draws yr ardal fel y gallwn leihau dyblygu a chynyddu ystod ac effeithiolrwydd gwasanaethau i ddinasyddion.**

- Rydym yn edrych ar ba wybodaeth sydd gennym a all ein helpu i ragfynegi pa blant a theuluoedd ifanc fydd angen y gefnogaeth fwyaf o'n gwasanaethau. Rydym wedi ymuno â phrosiect peilot proffilio bregusrwydd ar gyfer rhanbarth Cwm Taf Morgannwg sydd wedi edrych ar y wybodaeth sydd gan bartneriaid am 13521 o fabanod yn ystod 4 blynedd gyntaf eu bywydau. Bydd dadansoddi hyn yn ein helpu i gynllunio gwasanaethau ar draws y rhanbarth i gefnogi'r plant a'r teuluoedd ifanc hynny sydd eu hangen fwyaf. Bydd hefyd yn ein galluogi i roi cymorth mor gynnar â phosibl fel nad yw eu sefyllfa'n gwaethygu.

- Rydym yn gwybod bod cadw'n heini a threulio amser gyda ffrindiau yn bwysig i'n cadw ni'n iach. Weithiau gall cael cymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ein helpu i fod yn iachach a lleihau pa mor aml mae angen i ni fynd at y meddyg. Drwy'r grŵp rhagnodi cymdeithasol rhanbarthol ar gyfer Cwm Taf Morgannwg, rydym yn gwella'r ffordd rydym yn gweithio drwy rannu arferion da a chael dull cyffredin o gasglu gwybodaeth a gweld sut mae amgylchiadau pobl yn gwella. Rydym yn cefnogi'r grwpiau a'r gweithgareddau yn y cymunedau fel y gall mwy o bobl elwa.

- Mae byw bywyd yn rhydd o drais a chamdriniaeth yn hawl ddynol sy'n berthnasol i bawb. Rydym yn gweithio ar draws ardal Cwm Taf Morgannwg i gomisiynu gwasanaeth rhanbarthol newydd i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cynnal asesiad cynhwysfawr o anghenion ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Defnyddiwyd hyn i ddatblygu strategaeth gomisiynu ar gyfer ardal Cwm Taf Morgannwg a fydd yn sicrhau bod pob dioddefwr yn cael gwasanaeth sy'n seiliedig ar anghenion, yn benodol i'r rhywiau. Bwriedir i'r gwasanaeth newydd ddechrau ar 1 Mai 2021.

- Mae staff mewn sefydliadau lleol a rhanbarthol yn cael hyfforddiant i adnabod arwyddion camfantais rhywiol ar blentyn. Roeddent yn cynghori sut i ymateb yn y ffordd orau fel bod plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn ac yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt mor fuan â phosibl.

Cyflawni ein hamcanion Llesiant:

Y dechrau gorau mewn bywyd

Cefnogi cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynus

Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach

# Gweithio'n Rhanbarthol

## Adroddiad Blynyddol BGC Pen-y-bont ar Ogwr

- Gwyddom fod yna dirwedd naturiol wych o fynyddoedd, mannau gwyrdd ac arfordir yng nghyffiniau Pen-y-bont ar Ogwr a De Cymru. Rydym ni eisiau i fwy o bobl allu profi'r lleoedd hyn a chael y manteision i iechyd a llesiant sy'n dod yn sgil hynny. Mae Parc Gwledig Bryngarw a Gwarchodfa Natur Parc Slip wedi'u dewis i fod yn byrth i Barc Rhanbarthol y Cymoedd er mwyn i ymwelwyr a phobl leol gael gwybodaeth amdanynt a defnyddio'r dewis eang o fannau gwyrdd sydd yna ar draws y rhanbarth. Bydd gweithgareddau a chyfleoedd newydd yn gysylltiedig â'r safleoedd porth hyn fel bod mwy o bobl yn gallu eu mwynhau.

Nod Rhwydwaith Natur Cwm Taf yw ffurfio cydweithrediad o sefydliadau yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg i reoli seilwaith gwyrdd y rhanbarth er budd pobl, busnesau a chymunedau. Mae'r prosiect wedi'i rannu'n dair thema sy'n cyd-fynd â Chynlluniau Llesiant Cwm Taf a Phen-y-bont ar Ogwr

### Galluogi

**cynyddu mynediad at seilwaith gwyrdd..**

### Grymuso

**gwella ansawdd yr amgylchedd er mwyn sicrhau cymunedau ffyniannus.**

### Uno

**creu rhwydwaith cysylltiedig o fannau gwyrdd.**




Cyflawni ein hamcanion Llesiant:

- Y dechrau gorau mewn bywyd
- Cefnogi cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynus
- Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach

# Cydweithredu

## Adroddiad Blynyddol BGC Pen-y-bont ar Ogwr

**O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ystyrir bod cydweithredu'n golygu gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant. I BGC Pen-y-bont ar Ogwr mae hyn wrth wraidd yr hyn a wnawn ac mae'r Cynllun Llesiant ond yn cynnwys pethau sy'n gofyn am ddull partneriaeth. Ymhlith yr enghreifftiau o'r flwyddyn ddiwethaf hon mae estyn allan at bartneriaid ehangach ar draws ein sefydliadau a'n hardal:**

- Ar wahân i'w gwerth o ran ecoleg, tirwedd, cymdeithas ac amwynder, mae coed hefyd yn gwella ansawdd aer lleol, yn cipio carbon, yn lleihau llifogydd, yn oeri amgylcheddau trefol oer ac o fudd o ran llesiant. Galluogodd y broses arolygu i-Tree raglen o weithgareddau gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ac maent wedi nodi'r lleoliadau gorau ar gyfer plannu ym Mhen-y-bont ar Ogwr i sicrhau'r budd mwyaf. Gan adeiladu ar y gwaith hwn, mae partneriaid yn Is-fwrdd Asedau'r BGC yn parhau i gefnogi'r cynlluniau plannu coed a rheoli coetiroedd ym meithrinfa goed Parc Gwledig Bryngarw a gwarchodfeydd natur lleol coetir yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yng Nghraig y Parcau a Choedwig Tremaen.

- Dangosodd ein gwasanaethau mapio gwaith cynnar i deuluoedd a phlant yn eu 1000 diwrnod cyntaf, o adeg eu cenhedlu i fod yn ddwy flwydd oed, yr amrywiaeth eang o gymorth y mae sefydliadau partner yn ei ddarparu. Mae'r hybiau cymorth cynnar yn dod â'r gwasanaethau partner allweddol hyn at ei gilydd. Maent yn darparu gwasanaeth integredig i deuluoedd a hefyd yn darparu dull o rannu gwybodaeth a deall pob gwasanaeth yn well. Mae astudiaethau achos yn cael eu datblygu ac mae gwerthusiad yn cael ei gynnal ar fuddiannau Swyddogion Cymorth Cymunedol Heddlu De Cymru yn gweithio yn y 3 hyb cymorth cynnar i weld sut y gall y dull hwnnw wella a chael ei fabwysiadu mewn mannau eraill hefyd.

- Mae rhagnodi cymdeithasol yn helpu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol er mwyn gwella eu hiechyd a'u llesiant. Mae gan aelodau Is-fwrdd Asedau'r BGC ystod eang o asedau a chyfleoedd y gall dinasyddion fanteisio arnynt. Daethant at ei gilydd ar gyfer gweithdy rhagnodi cymdeithasol i ddysgu am weithgarwch ei gilydd a datblygu ymagweddau ar ragnodi cymdeithasol ar draws y partneriaid. Mae hyn wedi helpu i nodi'r ffactorau pwysicaf mae angen iddynt ganolbwyntio arnynt, yn enwedig gwybodaeth a chyfathrebu a phwysigrwydd sicrhau dyfodol tymor hir i asedau cymunedol.

- Sefydlwyd Rhwydwaith Gwyrdd Pen-y-bont i ddod â chydlynwyr gwirfoddol at ei gilydd ar gyfer prosiectau amgylcheddol a gweithgarwch cadwraeth. Maent yn cydgysylltu rhaglen 'lladd jac y neidiwr' ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys gwirfoddolwyr a chodi ymwybyddiaeth o'r broblem hon. Gall gwirfoddolwyr a phartneriaid hefyd gael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWBReC) i gofnodi rhywogaethau a hyfforddiant ar ddelio â rhywogaethau goresgynnol.

Cyflawni ein hamcanion Llesiant:

- Y dechrau gorau mewn bywyd
- Cefnogi cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynus
- Lleihau cydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd
- Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach

# Cydweithredu

## Adroddiad Blynyddol BGC Pen-y-bont ar Ogwr



- Mae grŵp rheoli canol y dref wedi ehangu ei aelodaeth i gynnwys ystod ehangach o randdeiliaid sydd â diddordeb mewn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwneud canol y dref yn lle diogel i ymweld ag ef.
- Mae gan bob cymuned y potensial i densiynau godi, a all arwain at ryw fath o wrthdaro. Mae'r offeryn monitro troseddau casineb misol yn casglu gwybodaeth gan staff ar draws sefydliadau partner i adeiladu darlun ar lefel cymdogaeth. Bydd hyn yn helpu i nodi mannau lle mae tensiwn ar ei uchaf er mwyn cyflawni ymyrraeth gynnar, ac atal problemau rhag gwaethygu
- Mae swyddogion gwasanaethau stryd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael eu hyfforddi i adnabod sbwriel sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac ymateb yn ddiogel iddo. Byddant yn helpu i nodi mannau lle mae'r defnydd mwyaf o gyffuriau fel y gellir targedu gwasanaethau yn ôl yr angen a sicrhau bod pobl a staff lleol yn ddiogel rhag cael eu hanafu.
- Mae partneriaid wedi dod at ei gilydd i ddarparu cefnogaeth gydgysylltiedig i rai sy'n cysgu allan ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
  - Mae eglwysi a chanolfan Y Zone ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn darparu cymorth yn ystod y dydd bob dydd sy'n ychwanegol at y ddarpariaeth dros nos bresennol.
  - Mae pobl fregus, gan gynnwys y rheini sy'n ddigartref neu'n cysgu ar y stryd, wedi cael cyngor a chymorth ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys dyled, cyflogaeth, tai ac iechyd mewn caffi argyfwng wythnosol yn Y Zone ym Mhen-y-bont ar Ogwr lle mae partneriaid BGC wedi dod ynghyd i ddarparu gwasanaeth galw heibio
  - Mae pobl sy'n gwirfoddoli i weithio gyda phobl sy'n cysgu ar y stryd wedi cael mynediad at gymorth gan weithwyr arbenigol i'w helpu i ddeall yn well y materion sy'n effeithio ar bobl sy'n cysgu allan, ac i gydnabod ac ymateb i faterion diogelwch pwysig.
- Mae staff sy'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth yn dweud ei fod yn datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth am bartneriaid eraill. Mae profiad o weithio ar draws sefydliadau wedi helpu'r prentis BGC i wneud cais a chael ei dderbyn i'w hyfforddi fel heddwas.



Cyflawni ein hamcanion llesiant:

- Y dechrau gorau mewn bywyd
- Cefnogi cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynus
- Lleihau cydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd
- Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach

# Cydweithredu

## Adroddiad blynyddol BGC Pen-y-bont ar Ogwr



Mae BGC Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gyda phartneriaid lleol i wella llesiant. Mae'r Cynllun Llesiant ond yn cynnwys pethau rydym am eu gwneud gyda'n gilydd. Eleni rydym wedi bod yn gweithio gyda rhai partneriaid newydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr a hefyd mewn ardaloedd cyfagos.







Plannwyd

**2210**

o goed mewn 6 lleoliad ar draws Sir Pen-y-bont ar Ogwr

Cefnogwyd

**1203**

o deuluoedd gan hybiau cymorth cynnar gyda staff o 5 gwasanaeth gwahanol

Mae

**27**

o sefydliadau'n darparu gweithgareddau cymunedol neu ddigwyddiadau



Mae

**22**

aelod o 14 o wahanol sefydliadau yn Rhwydwaith Gwyrdd Pen-y-bont yn gweithio gyda gwirfoddolwyr i wella ein mannau gwyrdd.



Mae

**27**

Aelod o 14 o wahanol sefydliadau ar grŵp rheoli canol y dref



Mae

**76**

o swyddogion ar draws 5 sefydliad yn defnyddio'r ffurflen monitro tensiwn i adrodd digwyddiadau mewn cymunedau



Bydd

**40**

o swyddogion gwasanaethau stryd yn cael hyfforddiant arbennig i ddelio â sbwriel sy'n gysylltiedig â chyffuriau



**5**

Darperir 5 awr o gymorth yn ystod y dydd i rai sy'n cysgu allan bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener drwy gydol y flwyddyn



Yn cyflawni ein hamcanion llesiant:

# Integreiddio

## Adroddiad blynyddol BGC Pen-y-bont ar Ogwr

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ystyrir mai integreiddio yw'r dull o ystyried sut y gallai amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. Yn BGC Pen-y-bont ar Ogwr mae gennym enghreifftiau o sut mae cyrff cyhoeddus a phartneriaid ehangach yn canfod bod gweithio'n agosach gyda'i gilydd a chymryd ymagwedd gyffredin tuag at faterion yn cyflawni eu hamcanion eu hunain tra'n cyflawni ar y cyd ar nodau llesiant ac amcanion llesiant y BGC.

- Yn ein hasesiad llesiant dywedodd dinasyddion fod cael cyflogaeth â chyflog da yn hanfodol i'w llesiant. Mae pobl leol ym mhob ardal ac o bob oed yn gallu manteisio ar ystod eang o gymorth ar faterion cyflogaeth fel iechyd, sgiliau sylfaenol a hyder o dan un faner – Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr. Mae partneriaid a busnesau'r sector cyhoeddus wedi cymryd rhan mewn ffeiriau swyddi, diwrnodau hwyl i'r teulu a digwyddiadau recriwtio i ymgysylltu â phobl leol a darparu cyngor a mynediad i raglenni.
- Gall dod i'r gweithle am y tro cyntaf fod yn frawychus iawn. Yn ogystal â chael mentor yn y gweithle i gefnogi eu hanghenion dysgu a datblygu, mae prentisiaid mewn busnesau lleol wedi gallu rhannu profiadau â'i gilydd a chael cyngor a chymorth gan gyflogwyr lleol eraill fel rhan o gylch mentora peilot.
- Roedd aelodau sefydliadau partner yn gallu rhannu eu harferion da ac archwilio cyfleoedd i gydweithio mewn gweithdy rhanbarthol yn canolbwyntio ar gymorth i blant yn eu blynyddoedd cynnar, asedau cymunedol naturiol a hanesyddol a chefnogi pobl hŷn i heneiddio'n dda.
- Mae cynghorau tref a chymuned lleol wedi dod â'u persbectif cymunedol eu hunain i waith y BGC gan fod aelodau o'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned Lleol wedi ymuno ag Is-fwrdd Asedau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynghorau tref a chymuned mwy o faint chwarae rhan yn y gwaith o gyflawni cynlluniau llesiant lleol ac mae'r BGC wedi bod yn awyddus i weithio gyda chynghorau tref a chymuned mewn ffordd integredig drwy'r fforwm.
- Cyflogir llywwyr cymunedol gan BAVO i ffurfio adnodd rhagnodi cymdeithasol i gynorthwyo pobl i wella eu hiechyd a'u llesiant drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol a defnyddio asedau lleol. Maent yn datblygu asedau cymunedol ac mae partneriaid ar Is-fwrdd Asedau'r BGC yn dod ynghyd i gyflwyno eu gweithgareddau a'u cyfleoedd eu hunain i'r fframwaith hwn
- Mae pobl sydd â diddordeb mewn sefydlu eu mentrau eu hunain wedi cymryd rhan mewn ysgol fusnes 'wib' wythnos o hyd. Cawsant gyngor ar y camau cyntaf a mwy o ddyfnder ar amrywiaeth o bynciau o fewn cwrs busnes amgen yn dangos ffyrdd ymarferol o ddechrau busnes am ddim.
- Gall cyn-filwyr o'n lluoedd arfog godi unrhyw fater y maent yn cael trafferth gydag ef yn Hyb Cyn-filwyr y caffi galw heibio yn y Zone ar foreau Gwener. Bob wythnos, mae sefydliadau partner ar gael i roi cyngor ar iechyd, bancio, budd-daliadau a chyflogadwyedd.

Cyflawni ein hamcanion llesiant:

- Y dechrau gorau mewn bywyd
- Cefnogi cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynus
- Lleihau cydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd
- Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach

# Integreiddio

## Adroddiad blynyddol BGC Pen-y-bont ar Ogwr

Rydym i gyd yn gweithio i wella llesiant yn ein cymunedau. Yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr mae gennym enghreifftiau o sut mae gweithio'n agosach gyda'n gilydd yn gwella pethau i bob un o'n defnyddwyr gwasanaethau.





**50 • 300**

Roedd stondinau o dros 50 o fusnesau a sefydliadau yn y ffair swyddi ym Mhorthcawl lle y daeth dros 300 o bobl i weld y cyfleoedd oedd ar gael.



Daeth

**44**

o gynadleddwyr i weithdy rhanbarthol Bae'r Gorllewin ar gymorth i blant a babanod, gwella mannau gwyrdd a helpu pobl hŷn i fod yn iach.



Mae

**72**

o bobl ifanc yn gwneud prentisiaeth iau yng Ngholeg Penybont.


Bridgend College
Coleg Penybont

Cyflogir

**9**

o lywwyr cymunedol gan Gymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) i helpu pobl i ddefnyddio gweithgareddau cymunedol lleol i wella eu hiechyd a'u llesiant.

BAVO



Mae mwy na

**80**

o entrepreneuriaid lleol wedi cael cymorth i ddechrau eu busnesau eu hunain ar ôl dilyn cwrs wythnos o hyd gydag PopUp Business School ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Yn cyflawni ein hamcanion llesiant

# Ymgysylltu

## Adroddiad blynyddol BGC Pen-y-bont ar Ogwr

**O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ystyrir bod ymgysylltu â phobl sydd â diddordeb mewn sicrhau llesiant yn bwysig. Mae'n ymwneud â darganfod beth sy'n bwysig i bobl yn eu cymunedau a defnyddio hynny i ddylanwadu ar benderfyniadau. Mae is-fyrddau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr wedi cynnwys pobl leol, busnesau, staff a sefydliadau cymunedol mewn amrywiaeth o drafodaethau mewn llawer o wahanol ffyrdd fel y gallwn ddeall eu gofidiau'n well, rhoi cyngor a chymorth a chanolbwyntio ein gweithgarwch ar y pethau pwysicaf.**

- Mae Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu rhaglen reolaidd o ddigwyddiadau busnes a chyfleoedd rhwydweithio gyda busnesau eraill i aelodau o bob rhan o'r gymuned fusnes. Bu aelodau o Is-fwrdd Llesiant y Gweithlu BGC mewn digwyddiad llesiant cyflogwyr gyda gwybodaeth am eu gweithgarwch i hybu iechyd a llesiant ymhlith eu staff. Mae gwybodaeth hefyd yn cael ei pharatoi ar gyfer busnesau bach sy'n gweithio gyda Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr fel y gallwn rannu dulliau a chysylltiadau.

- Drwy gynnig prentisiaethau, mae busnesau nid yn unig yn helpu eu busnes eu hunain i dyfu ond maent yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy at hybu ein heconomi a sicrhau bod ein gweithlu yn y dyfodol yn meddu ar y sgiliau cywir. Cynhaliwyd brecwast busnes i Fentrau Bach a Chanolig gan Goleg Penybont lle y clywodd busnesau bach a chanolig lleol gan berchnogion busnesau lleol a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru am y cymorth sydd ar gael iddynt a'r manteision o gynnwys prentisiaethau yn eu busnesau.

- Gall prentisiaethau fod yn llwybr tuag at yrfa gyffrous a boddhaus yn y dyfodol ar gyfer pob oedran. Mae Partneriaeth Dysgu Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio i wella gwybodaeth i bobl ifanc a phobl o gefndiroedd amrywiol am brentisiaethau. Rydym wedi cydweithio gyda sawl cyflogwr lleol allweddol i redeg digwyddiadau 'Rhoi cynnig arni' yng Ngholeg Cymunedol Y Dderwen lle mae 3000+ o ddisgyblion ysgol wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu i godi ymwybyddiaeth o opsiynau gyrfa prentisiaeth mewn pynciau STEM.

- Canfu ein harolwg o gydlyniant cymunedol fod y rhan fwyaf o bobl yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol a'u bod yn rhan o'u cymuned. Roedd nifer fechan, fodd bynnag, wedi profi gwahaniaethu neu wedi dioddef trosedd casineb. Cynhaliwyd yr arolwg o gydlyniant cymunedol ac effaith Brexit drwy rwydweithiau partner, ar-lein a gyda dinasyddion mewn digwyddiadau cymunedol, cyfarfodydd PACT a diwrnod agored Heddlu De Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r canfyddiadau wedi helpu i wella ein dealltwriaeth o'r pethau sy'n destun pryder i bobl yn ein cymunedau a hefyd yn ein helpu i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael a sut i gael gafael arnynt.

Cyflawni ein hamcanion llesiant:

Cefnogi cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynus

Lleihau cydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd

# Ymgysylltu

## Adroddiad blynyddol BGC Pen-y-bont ar Ogwr

- Ar ôl i'r DU adael yr UE, mae angen i wladolion yr UE wneud cais i Gynllun Setliad yr UE i barhau i fyw yn y DU a chynnal eu hawliau i waith, gofal iechyd, astudio a budd-daliadau. Cynhaliwyd digwyddiadau ymwybyddiaeth a sesiynau cyngor galw heibio gyda dinasyddion, staff, myfyrwyr a chynghorwyr y fwrdeistref sirol i annog gwladolion yr UE i wneud cais fel y gallan nhw ac aelodau o'u teuluoedd gael y statws mewnfudo sydd ei angen arnynt i barhau i fyw, gweithio ac astudio yn y DU.

- Mae'r Tîm Partneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi bod allan bron bob wythnos yn ystod y flwyddyn yn siarad ag aelodau o'r cyhoedd am ddiogelwch cymunedol, troseddau casineb, trais domestig mewn gwahanol leoliadau o amgylch Sir Pen-y-bont ar Ogwr a chlywed am eu pryderon a'u profiadau. Mae nifer wedi cael eu cynnal yn yr orsaf fysiau ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn dilyn problemau'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn annog defnyddwyr bysiau i deimlo'n fwy diogel. Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a Grŵp Rheoli Canol y Dref wedi gallu defnyddio'r wybodaeth hon i ddeall yn well ym mhle mae cymunedau'n profi problemau. Maent hefyd wedi creu cysylltiadau i weithio gyda phobl a busnesau lleol sydd eisiau helpu i wella'r sefyllfa.

- Gall pobl ganfod bod materion fel iechyd a ffordd o fyw yn gallu effeithio ar eu gallu i gael swydd. Mae Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol mewn lleoliadau ar draws Sir Pen-y-bont ar Ogwr sy'n cynnwys cymorth cyflogaeth, gweithgareddau ymarfer corff i'r teulu, ac arddangosiadau bwyta'n iach i roi cyngor, hyrwyddo'r rhaglen a chlywed mwy hefyd am yr heriau y mae pobl yn eu hwynebu i gael swyddi a pha gymorth sydd ei angen arnynt

- Mae ymgysylltu â phobl ifanc mewn trafodaethau am y mathau o weithgareddau y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt wedi helpu i ddatblygu rhaglen gan gynnwys Bwyta'n Iach a Choginio Gyda'i Gilydd, ysgrifennu rap a chân, Dysgu offeryn, CV a chwilio am swydd. Cynigir y cyfleoedd hyn law yn llaw â gwaith ieuenctid ar wahân sy'n anelu at eu dargyfeirio i weithgareddau mwy cadarnhaol mewn lleoliadau sydd wedi gweld cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol.



Cyflawni ein hamcanion llesiant:

Cefnogi cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynus

Lleihau cydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd

# Ymgysylltu

## Adroddiad blynyddol BGC Pen-y-bont ar Ogwr

Mae BGC Pen-y-bont ar Ogwr eisiau canfod beth sydd o bwys i bobl yn eu cymunedau fel y gallwn ddefnyddio hynny i wella gwasanaethau.

Eleni rydym wedi siarad â phobl leol, busnesau, staff a sefydliadau cymunedol fel y gallwn ddeall eu gofidiau'n well a rhoi cyngor a chymorth ar y pethau sydd bwysicaf yn eu barn hwy.

Daeth **42** o bobl i Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr a digwyddiadau llesiant HALO

Daeth **30** o fusnesau lleol i frecwast busnes Mentrau Bach a Chanolig i hyrwyddo prentisiaethau

Ymatebodd **183** o bobl i'r arolwg cydlyniant Cymunedol

Mae **3000+** o ddisgyblion wedi bod ar ddiwrnodau rhoi cynnig arni i hyrwyddo prentisiaethau mewn gwyddoniaeth a thechnoleg

Cynhaliwyd **7** sesiwn ymwybyddiaeth ar gyfer cynllun setliad yr UE yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Coleg Penybont, Canolfan Llesiant Maesteg a Chanolfan Waith Pen-y-bont ar Ogwr

Cynhaliwyd **84** sesiwn ymwybyddiaeth y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn ystod y flwyddyn ar bynciau fel trais domestig, troseddau casineb, stelcian a diogelwch o gwmpas noson tân gwyllt a diogelwch cyffredinol.

Cynhelir **19** sesiwn galw heibio bob wythnos gan Gyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr. Cynhaliwyd 12 o ddigwyddiadau ymgysylltu a diwrnodau hwyl gan Gyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr

Roedd **1857** o bobl ifanc wedi cymryd rhan mewn 123 o weithgareddau allgymorth a sesiynau galw heibio ledled y Sir i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Yn cyflawni ein hamcanion llesiant:

# Tymor Hir

## Adroddiad blynyddol BGC Pen-y-bont ar Ogwr

**O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae cael ffordd tymor hir o weithio yn cael ei hystyried yn ddull sy'n cydnabod pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. Mae ein hasesiad llesiant lleol a gwaith cenedlaethol parhaus ar dueddiadau'r dyfodol yn ein helpu i gydnabod sut mae ein poblogaeth, ein cymunedau a'n hamgylchedd yn newid ac y disgwylir iddynt newid yn y dyfodol. Isod mae rhai o'r pethau rydym yn edrych arnynt**

- Rhagwelir y bydd iechyd meddwl, diabetes a dementia yn parhau i gynyddu yn y dyfodol. Gall gwella ffordd o fyw gael effaith gadarnhaol ar bob un o'r rhain ac rydym yn ehangu cyfleoedd i bobl fod yn egnïol yn ein mannau gwyrdd drwy ymwneud â Pharc Rhanbarthol y Cymoedd a Rhwydwaith Natur Cwm Taf.

- Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn nodi sut a ble y bydd datblygiad Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn digwydd yn y dyfodol. Mae ei egwyddorion yn cynnwys manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hyrwyddo iechyd da a llesiant. Mae Is-fwrdd Asedau'r BGC wedi helpu i sicrhau bod yr agweddau ehangaf posibl ar iechyd a llesiant yn cael eu hadlewyrchu yn y CDLl drwy drefnu asesiad o'r effaith ar iechyd dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru i'w gynnal gydag aelodau'r is-fwrdd a rhanddeiliaid eraill.

- Roedd sicrhau gweledigaeth tymor hir gyffredin ar gyfer gwella llesiant ar gyfer y rhanbarth yn ymrwymiad o'r gynhadledd rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Chwm Taf a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd hyn yn deillio o waith ar y cyd ar yr asesiadau y mae'n rhaid i'r BGCau a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu cwblhau. Bydd hefyd yn golygu edrych ar feysydd nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw drwy'r trefniant partneriaeth ranbarthol ar hyn o bryd i gytuno sut y gallwn gydweithio yn y dyfodol. Mae'r meysydd dan ystyriaeth yn cynnwys bregusrwydd, digartrefedd a newid hinsawdd.

- Disgwylir i'n poblogaeth ddod yn fwy amrywiol yn y dyfodol. Gall tensiynau ymddangos rhwng gwahanol grwpiau ethnig neu ffydd, newydd-ddyfodiaid a thrigolion tymor hir, hen ac ifanc, cyfoethog a thlawd neu ar hyd llinellau cymdogaeth. Mae gwella cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth yn elfennau allweddol o'n hagwedd at weithgarwch cydlyniant cymunedol. Eleni rydym wedi cychwyn monitro tensiwn misol ac wedi creu rhaglen o ymwybyddiaeth a chyfathrebu drwy ein cydlynydd cydlyniant cymunedol. Mae cyfathrebu rheolaidd â grwpiau ffydd lleol gan gynnwys arweinydd y mosg yn Abercynffig ac arweinwyr yr Eglwys Gatholig yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr wedi helpu i hyrwyddo ymwybyddiaeth o droseddau casineb a darparu cymorth gyda materion eraill fel cofrestru cynllun setliad yr UE.

Cyflawni ein hamcanion llesiant:

Y dechrau gorau mewn bywyd

Cefnogi cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynus

Lleihau cydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd

Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach

# Tymor Hir

## Adroddiad blynyddol BGC Pen-y-bont ar Ogwr

- Rydym yn gwybod y bydd gan ein poblogaeth yn y dyfodol gyfran uwch o bobl hŷn. Mae rhaglenni fel 'Super-Agers' yn cefnogi cymunedau i ddatblygu mwy o gyfleoedd i bobl hŷn chwarae rhan weithredol yn eu cymunedau a chynnal iechyd a llesiant. Mae ein His-Fwrdd Llesiant y Gweithlu yn ystyried sut y gall sefydliadau gefnogi pobl hŷn yn eu gweithlu i baratoi ar gyfer ymddeoliad iach a gweithredol.

- Mae'r angen i feddwl yn wahanol am y ffordd rydym yn byw ac yn symud o gwmpas i ymateb i'r newid yn yr hinsawdd wedi ysgogi Is-fwrdd Llesiant y Gweithlu'r BGC i nodi gweithio ystwyth fel maes ar gyfer gwaith ar y cyd yn y dyfodol. Mae gan ein priod sefydliadau wahanol ddulliau a bydd rhannu profiadau ac ymagweddau yn ein helpu i archwilio opsiynau pellach. Bydd gweithio gartref ac ymatebion eraill i Covid-19 yn darparu ffynhonnell gyfoethog o brofiad o ystod amrywiol o wasanaethau.

- Mae natur yn dirywio'n fyd-eang ar gyfraddau digynsail. Mae cyfradd difodiant rhywogaethau'n cynyddu gyda miliwn o rywogaethau dan fygythiad gydag effeithiau difrifol ar bobl ledled y byd. Yng Nghymru, gallai hyn olygu colli 1 o bob 14 o'n rhywogaethau. Mae Rhwydwaith Gwyrdd newydd Pen-y-bont ar Ogwr yn canolbwyntio ar annog a chydgysylltu gweithredu gan wirfoddolwyr ar fioamrywiaeth gan ganolbwyntio ar y rhywogaeth oresgynnol Jac y Neidiwr. Mae timau'n ei dynnu yn y gwanwyn i atal Jac y Neidiwr rhag mygu planhigion brodorol, teyrnasu dros gynefinoedd a gadael tir yn agored i erydiad yn y gaeaf.

- Yn ein gweithdy datblygu ym mis Rhagfyr rhoesom her i'n hunain i edrych ymhellach i'r dyfodol ac ystyried a yw'r byd wedi newid ac a oes angen i'n barn tymor hir ni newid. Buom yn ystyried y newid yn yr hinsawdd, yr economi sylfaenol, bregusrwydd a rheoli drwy orfodaeth, Brexit, prosiect cyd-adeiladu Cwm Taf, tlodi, rhagnodi cymdeithasol. Roedd aelodau'r BGC o'r farn mai newid yn yr hinsawdd oedd y prif faes i gael mwy o sylw a bod enghreifftiau da o waith i'w defnyddio fel rhaglen carbon positif Cyfoeth Naturiol Cymru a gwaith arloesol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar ynni o'r ardal leol ac ynni di-garbon.



Cyflawni ein hamcanion llesiant:



Y dechrau gorau mewn bywyd

Cefnogi cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynus

Lleihau cydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd

Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach

# Tymor Hir

## Adroddiad blynyddol BGC Pen-y-bont ar Ogwr

Rydym wedi defnyddio ein hasesiad llesiant lleol a'n gwaith cenedlaethol i'n helpu i gydnabod sut mae ein poblogaeth, ein cymunedau a'n hamgylchedd yn newid ac yn debygol o newid yn y dyfodol. Eleni rydym wedi gweithio ar y canlynol





gweithgarwch mewn mannau gwyrdd i wella iechyd y boblogaeth – Pyrth i Barc Rhanbarthol y Cymoedd ar 2 safle – Parc Bryngarw a Gwarchodfa Natur Parc Slip. 9 o fannau gwyrdd yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr gyda gwobr y faner werdd

Bu
**21**
o bobl o 10 sefydliad gwahanol yn cymryd rhan mewn asesiad effaith iechyd ar Gynllun Datblygu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr

Bu
**42**
o gynadleddwyr yn nigwyddiad Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus/Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn datblygu gweledigaeth hirdymor ar gyfer y rhanbarth


Mae yna
**64**
aelodau yn Fforwm Cydlyniant Cymunedol a Chydraddoldeb Pen-y-bont ar Ogwr sy'n cyfarfod bob 3 mis

Disgwylir
**30%**
o gynnydd yn ein poblogaeth o bobl dros 65 oed erbyn 2043. Mae 10 sefydliad yn gweithio ar helpu staff i gael ymddeoliad iach.

Mae
**10**
sefydliad yn ystyried sut y gall gweithio ystwyth helpu i leihau allyriadau C02.



Mae
**1 o bob 14**
rhywogaeth dan fygythiad o ddiflannu yng Nghymru. – Mae Rhwydwaith Gwyrdd Pen-y-bont yn gweithio i hybu bioamrywiaeth



Mae
**20**
aelod o'r BGC yn edrych ar sut y gall gweledigaeth hirdymor ar gyfer y BGC gyfrannu at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.



Yn cyflawni ein hamcanion llesiant

# Atal

## Adroddiad blynyddol BGC Pen-y-bont ar Ogwr

**O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae atal yn cael ei weld fel modd y gallai gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. Ar gyfer BGC Pen-y-bont ar Ogwr mae hyn yn golygu rhannu arferion da ar fesurau ataliol, dysgu am effeithiolrwydd yr arferion presennol a chydgysylltu gweithgarwch er mwyn gwella effaith. Mae'r enghreifftiau isod hefyd yn cynnwys lle rydym yn rhannu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth fel bod problemau yn cael eu hadnabod yn gyflym a'u trin yn effeithiol cyn i sefyllfaoedd waethygu ymhellach.**

- Fel cyflogwyr mawr yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr, mae aelodau'r BGC am atal staff rhag mynd yn sâl a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a fydd hefyd o fudd i'w teuluoedd a'u cymunedau. Mae ein his-Fwrdd Llesiant y Gweithlu wedi rhannu arferion da o ran gweithgareddau i hyrwyddo llesiant staff ac wedi trosglwyddo hynny a ddysgwyd i'n priod sefydliadau. Maent hefyd wedi rhannu'r canfyddiadau o arolygon staff i helpu ei gilydd i archwilio heriau ac ystyried datrysiadau. Bydd datblygu cysylltiadau newydd gyda Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr a chyflogwyr sy'n gweithio gyda Chyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr yn dod â safbwyntiau a phartneriaid eraill i'r gwaith hwn.

- Mae cyfraddau cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu ac anableddau eraill yn sylweddol is nag ar gyfer y grŵp oedran hwnnw yn ei gyfanrwydd. Er mwyn atal yr effaith tymor hir y mae diffyg gwaith yn ei chael ar unigolion a theuluoedd, mae Partneriaeth Dysgu Pen-y-bont ar Ogwr â Choleg Penybont wedi cefnogi carfan arall o 9 person ifanc i mewn i interniaeth yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae deilliannau ar gyfer y garfan gyntaf yn 2018-19 wedi bod yn wych gyda'r rhan fwyaf o'r interniaid yn mynd ymlaen i gael cyflogaeth lawn a phob un yn nodi gwelliant o ran hyder a medrau i fynd gyda nhw i gyflogwr yn y dyfodol.

- Mae masnachwyr yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr yn pryderu bod ymddygiad gwrthgymdeithasol, digartrefedd a chamddefnyddio sylweddau yn atal pobl sydd am siopa ac ymwelwyr rhag dod i ganol y dref. Mae'r Grŵp newydd ar gyfer Rheoli Canol y Dref wedi darparu cyfle i gydgysylltu gweithgarwch a chasglu gwybodaeth gan nifer o wahanol sefydliadau i fynd i'r afael â'r heriau. Law yn llaw â gwaith a gomisiynwyd gyda phobl ifanc, mae Heddlu De Cymru yn mynd ati'n gadarn i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau a rhwystro cadwyni cyflenwi ac arestio unigolion allweddol.

- Mae gan ysgolion rôl hanfodol o ran sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu haddysgu am gyffuriau ac alcohol, eu heffeithiau a'u canlyniadau posibl. Rhaid iddynt hefyd sicrhau eu bod wedi'u harfogi i ddelio ag achosion o gamddefnyddio sylweddau mewn ffordd briodol. Mae patrymau camddefnyddio sylweddau yn newid drwy'r amser. Er mwyn sicrhau bod polisïau ar draws partneriaid ac ysgolion yn gyson, yn berthnasol ac yn gyfoes, mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gweithio gydag ysgolion i adolygu a diweddaru polisïau cyfredol ac yn rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod gennym farn gyfredol am gamddefnyddio sylweddau yn yr ardal.

Yn cyflawni ein hamcanion llesiant:

Y dechrau gorau mewn bywyd

Cefnogi cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynus

Lleihau cydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd

Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach

# Atal

## Adroddiad blynyddol BGC Pen-y-bont ar Ogwr

- Mae'r BGC wedi dwyn ynghyd pobl o amrywiol sefydliadau i nodi sut y gallwn, gyda'n gilydd, wella ein gallu i leihau'r tebygolrwydd o hunanladdiad a chefnogi'n well y bobl sy'n cael eu heffeithio gan hunanladdiad neu geisio cyflawni hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae'r broses weithredu wedi parhau ar y Strategaeth Atal Hunanladdiad i godi ymwybyddiaeth, ymateb i argyfyngau, cefnogi unigolion a theuluoedd a lleihau mynediad i foddau o gyflawni hunanladdiad. Mae cyfraddau hunanladdiad yn dechrau disgyn ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Enillodd y Grŵp Ymateb ac Adolygu Hunanladdiad wobr partneriaeth Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru am eu gwaith cydweithredol ar y strategaeth.

- Mae'n hanfodol bod gan staff y wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i nodi achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae hyfforddiant 'Holi a Gweithredu' yn cael ei ddarparu i staff rheng flaen, rheolwyr a hyfforddwyr ar draws y sefydliadau partner ac yn rhanbarthol. Caiff staff eu hyfforddi i holi am y materion hyn ac i ymateb yn effeithiol. Mae hefyd yn edrych ar y diwylliant, y gweithdrefnau a'r monitro mewn sefydliadau i sicrhau bod systemau yn ymateb cystal.

- Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth Atal yn rhan o'r strategaeth wrthderfysgaeth genedlaethol i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth. Mae staff rheng flaen, gan gynnwys staff o ysgolion a sefydliadau partner o bob sector wedi cael eu hyfforddi i nodi pryd y gallai rhywun fod yn agored i gael ei radicaleiddio a chael yr hyder a'r gallu i fynegi pryderon.

- I atal pobl ifanc ac oedolion agored i niwed rhag cael eu tynnu i grwpiau eithafol asgell dde, mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gweithio gyda sefydliad o'r enw Small Steps i ddarparu hyfforddiant ar gyfer staff rheng flaen ar draws sefydliadau partner. Mae'r sesiynau yn codi ymwybyddiaeth am ideoleg y dde eithaf, sut y mae grwpiau o'r fath yn gweithredu, beth yw'r gwrth-naratifau a sut y gall staff helpu i herio hyn drwy adnabod arwyddion rhybudd amlwg.



Yn cyflawni ein hamcanion llesiant:

- Y dechrau gorau mewn bywyd
- Cefnogi cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynus
- Lleihau cydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd
- Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach

# Atal

## Adroddiad blynyddol BGC Pen-y-bont ar Ogwr

I atal problemau rhag digwydd neu waethygu mae BGC Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn rhannu arfer da, dysgu am ffyrdd cyfredol o weithio a gweithio gyda'n gilydd i wneud pethau'n well. Rydym hefyd yn hyfforddi ar y cyd fel bod mwy o bobl yn gwybod sut i adnabod problemau a sut i ddelio â nhw cyn iddynt waethygu.



Mae
**10**
o Sefydliadau ar Is-fwrdd Llesiant y Gweithlu yn rhannu'r ffordd y maent yn gweithio i atal staff rhag mynd yn sâl.

Mae
**9**
o bobl ifanc ar interniaeth yn Ysbyty Tywysoges Cymru yn dysgu sgiliau newydd ar gyfer gwaith.

Cymerodd
**53**
o bobl ran mewn arolwg ar ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae
**10**
o bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd ar y strategaeth atal hunanladdiad

Cafodd
**26**
o gynrychiolwyr hyfforddiant ar eithafiaeth asgell dde

Sefydlwyd
**5**
sesiwn hyfforddi ymwybyddiaeth atal i helpu staff i wrthsefyll terfysgaeth








Cafodd
**4907**
o bobl hyd yn hyn eu hyfforddi i adnabod ac atal trais yn y cartref ac roedd 7 yn cael eu hyfforddi i fod yn hyfforddwyr eu hunain.

Yn cyflawni ein hamcanion llesiant

# Sut rydym yn cyflawni'r cynllun

**Rydym yn sicrhau bod blaenoriaethau a chamau ein Cynllun Llesiant yn cael eu cyflawni drwy'r canlynol:**

**Llywodraethu da** - Mae'r pump is-fwrdd yn cydgysylltu'r ddarpariaeth fel y nodir isod. Caiff eu gweithgarwch ei adrodd i'r BGC ac mae'r Cadeiryddion yn cyfarfod i integreiddio gweithgarwch ar draws yr amcanion ac osgoi dyblygu. Yn dilyn y gweithdy datblygu ym mis Rhagfyr byddwn yn ceisio datblygu mwy o gyfleoedd i is-fyrddau weithio gyda'i gilydd.




**Atebolrwydd** - Mae panel craffu'r BGC, gan gynnwys aelodau etholedig, yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i adolygu gweithgarwch a rhoi cyngor a chymorth. Maent wedi rhoi cyngor ar yr Adroddiad Blynyddol ac wedi cael sesiwn ar wahân i edrych ar waith yr Is-fwrdd Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd ac is-fwrdd Partneriaeth Dysgu Pen-y-bont ar Ogwr. Mae aelodau o'r Panel Craffu'n eistedd ar bob un o'r is-fyrddau i ddatblygu'r berthynas hon ymhellach gan ddod â'u profiad eu hunain.

**Arweinyddiaeth gref** - Mae BGC wedi datblygu fframwaith llywodraethu ar gyfer cyflawni'r cynllun ac mae aelodau'r BGC yn cadeirio pob is-fwrdd.

**Adnoddau ar y cyd** - Mae pob partner wedi cyfrannu at weithgarwch ar draws yr holl is-fyrddau, gan rannu adnoddau a chefnogi ceisiadau ar y cyd am arian.

**Cynlluniau cyflawni** - Datblygwyd cynlluniau cyflawni gan bob is-fwrdd yn nodi camau i'w cymryd i gyflawni pob cam yn y Cynllun Llesiant. Maent wedi arwain gweithgarwch a hefyd wedi'u defnyddio i adrodd ar gynnydd i'r BGC a'r panel Craffu. Cawsant eu hadolygu ar y cyd yn y gweithdy datblygu ym mis Rhagfyr. Mae is-fyrddau'n gweithio i ddatblygu fframwaith canlyniadau i gyd-fynd â fframwaith rheoli perfformiad y BGC.

**Ymrwymiad ar y cyd i gyflawni'r cynllun** - Mae'r holl aelodau'n pwysleisio'r budd a gânt o'r perthnasau sy'n cael eu meithrin ar draws y BGC o ran gweithio'n fwy cydweithredol i ddarparu gwasanaethau gwell yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr. Gan fod ôl troed y Bwrdd Iechyd wedi newid o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, mae'r BGC wedi bod yn datblygu cysylltiadau gyda BGC Cwm Taf a Bwrdd Cynllunio Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg.

**Cynnwys cymunedau a rhanddeiliaid** - Fel y nodir yn yr adroddiad hwn, mae'r BGC wedi ymgysylltu â dinasyddion, staff a defnyddwyr gwasanaethau i gynyddu dealltwriaeth o'r materion y mae angen mynd i'r afael â nhw a chyfrannu at gyflawni'r cynllun llesiant.

# Mesur Llesiant

Mae hwn yn gynllun tymor hir ar gyfer gwella llesiant yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr. Mae ein cynllun llesiant yn nodi nifer fach o ddangosyddion ansawdd bywyd, gan gynnwys dangosyddion llesiant cenedlaethol, ar gyfer pob un o'n hamcanion llesiant. Bydd y rhain yn ein helpu i weld tueddiadau a newidiadau i lesiant yn y tymor hir, ynghyd â gwybodaeth am dueddiadau'r dyfodol, datganiadau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru, Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a ffynonellau eraill a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a Data Cymru. Mae is-fyrddau yn gweithio i ddatblygu fframwaith canlyniadau a mesurau cysylltiedig i gyd-fynd â'r fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer y BGC.

Yr asesiad llesiant a ddarparodd y llinell sylfaen ar gyfer y cynllun llesiant ac rydym yn parhau i ychwanegu at hyn drwy:

- Y stori y tu ôl i'r ystadegau – mae gwybodaeth gan ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau yn ychwanegu at linell sylfaen yr asesiad llesiant ar draws yr holl amcanion e.e. cydlyniant cymunedol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, rhagnodi cymdeithasol, prentisiaethau, busnesau
- Casglu data mesuradwy ar weithgarwch is-fyrddau, a adlewyrchir yn y ffeithluniau yn y cynllun hwn
- Gweithio ar fframwaith o ganlyniadau a mesuriadau ar gyfer pob is-fwrdd.

Rydym yn gweithio gyda BGC Cwm Taf a Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Cwm Taf Morgannwg i ddatblygu dull rhanbarthol ar gyfer yr asesiadau llesiant a phoblogaeth nesaf er mwyn i ni allu gwneud cymaint â phosibl ar y cyd a dod â hynny ynghyd mewn un asesiad.

**Rydym yn parhau i groesawu eich sylwadau a'ch cyfraniad i'r gwaith o gyflawni'r cynllun llesiant er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i adlewyrchu anghenion, dyheadau ac uchelgais lleol.**

Yn cyflawni ein hamcanion llesiant:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y dechrau gorau mewn bywyd | Cefnogi cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynus | Lleihau cydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd | Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach |

## Manylion cyswllt


PSB@bridgend.gov.uK • 01656 642759

Tîm cymorth BGC, d/o Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr,

Y Ganolfan Ddinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB


https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/perfformiad-cynlluniau-ac-adroddiadau/bwrdd-gwasanaethau-cyhoeddus-pen-y-bont/